**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LN/00161/22

Rhys ab Owen AS
AS dros Ganol De Cymru
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Rhys.AbOwen@Senedd.Cymru

1 gorffennaf 2022

Annwyl Rhys,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 26 Ebrill ynghylch gwasanaethau dementia yng Nghymru, a ysgrifennwyd yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia.

Byddwn yn rhoi diweddariad llawnach i'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia yn fuan iawn, a bydd hwnnw'n cynnwys manylion am y materion yr ydych yn eu codi. Fodd bynnag, yn y cyfamser, roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol darparu ymateb dros dro i'r pwyntiau yr ydych yn eu nodi.

***Ariannu ymchwil i ddatblygu adnoddau diagnostig sy'n darparu canlyniadau cywir.***

Rydym yn cydnabod bod hwn yn faes y gallwn ei ddatblygu ymhellach. Fodd bynnag mae'r gwaith presennol yn cynnwys cynnig sganio FDG-PET er mwyn gwella'r diagnosis o ddementia drwy ei wneud mewn modd mwy amserol ac effeithiol. Cafodd y ddarpariaeth hon ei threialu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'i chefnogi gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion a Chanolfan Delweddu PET Cymru. Yn sgil llwyddiant y cynllun peilot, mae hyn wedi cael ei gyflwyno ledled Cymru, ac mae gwybodaeth ychwanegol am y gwaith hwn yn y Datganiad Ysgrifenedig yr ydych yn cyfeirio ato.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-22 yn cydnabod bod yr angen i siaradwyr Cymraeg sy'n byw gyda dementia allu derbyn gofal a chymorth yn eu hiaith gyntaf neu eu dewis iaith yn angen clinigol. Roedd yn cyfeirio'n benodol at y ffaith bod angen gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi a defnyddio'r adnoddau asesu dementia mwyaf trylwyr sydd wedi eu dilysu'n glinigol, er mwyn eu defnyddio yn y Gymraeg a chomisiynu ymchwil fel y bo angen. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu IAITH: y Ganolfan Cynllunio Iaith, ynghyd â Phrifysgol Bangor, i gynnal ymchwil i nodi rhagor o ddata normadol o ansawdd da am fersiynau Cymraeg o raddfeydd asesu gwybyddol sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd yng Nghymru, er mwyn i bobl allu fod â hyder wrth ddehongli asesiadau mewn cyd-destun clinigol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y tîm ymchwil yn coladu gwybodaeth am yr adnoddau/graddfeydd asesu dementia sydd ar gael yn y Gymraeg, ynghyd â sut maent yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, gan nodi'r adnoddau Cymraeg mwyaf trylwyr sydd wedi eu dilysu'n glinigol. Hefyd bydd y tîm yn casglu data normadol yn Gymraeg ar gyfer y tri adnodd asesu dementia mwyaf trylwyr sy'n cael eu defnyddio'n eang mewn clinigau ledled Cymru. Caiff y prosiect ei lywio gan grŵp llywio, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol ac ymarferwyr clinigol.

***Ariannu cymorth ôl-ddiagnosis***

Mae pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ariannu cymorth ôl-ddiagnosis drwy ei ddyraniadau cyllid Integreiddio Rhanbarthol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ehangu o ganlyniad i ryddhau £3m ychwanegol o'r llynedd sydd â'r nod o gynyddu capasiti mewn gwasanaethau asesu cof a hefyd y cymorth sydd ar gael i bobl drwy gydol eu taith ddiagnostig. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn coladu manylion gweithgarwch o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Ar ôl cwblhau hyn, byddwn yn sicrhau bod adroddiad y Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia, y cyfeirir ato uchod ac a fydd yn cynnwys enghreifftiau o'r gweithgarwch hwn, yn cael ei rannu.

***Datblygu safonau data a datblygu cysylltiadau â'r byd academaidd***

Mae'r gwaith hwn yn ganolog i'n rhaglen waith bresennol. Rydym wedi creu ffrwd waith benodol ar gyfer gweithredu'r Safonau Gofal Dementia i ganolbwyntio ar y gofynion data y mae eu hangen ar gyfer adrodd a sicrwydd, er mwyn cefnogi nifer o ffrydiau gwaith eraill. Rydym wedi dweud yn flaenorol y bydd y data hyn yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o bennu'r math o wasanaethau dementia a ddarperir wrth inni symud i'r dyfodol. Bydd yr adroddiad y byddwn yn ei rannu â chi yn darparu rhagor o fanylion o ran sut y mae'r gwaith hwn yn sail i weithgareddau eraill yr ydym yn canolbwyntio arnynt drwy weithredu'r camau gweithredu y cyfeirir atynt yn y ddogfen ategol.

Yn olaf, diolch am y gwahoddiad i fynychu cyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol er mwyn siarad â'r aelodau ynghylch polisi gofal dementia Llywodraeth Cymru. Byddwn yn hapus i dderbyn y gwahoddiad hwn, a byddaf yn gofyn i'n swyddfeydd drafod dyddiadau.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing